BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

DATHLU ADDYSG GREFYDDOL mewn YSGOLION â CHYMERIAD CREFYDDOL

Rydym wedi mabwysiadu'r term 'ysgolion â chymeriad crefyddol' yma yn hytrach nag 'ysgolion ffydd' a ddefnyddir yn aml yn y cyfryngau. Er bod gan y mwyafrif o ysgolion tebyg sylfaen Gristnogol (yn arbennig Anglicanaidd a Phabyddol), mae ysgolion Iddewig wedi bod mewn bodolaeth ers sawl blwyddyn. Yn ddiweddar fodd bynnag, mae'r patrymau wedi dechrau amrywio llawer gan fod grwpiau crefyddol wedi sefydlu ysgolion y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol, yn arbennig rhai Mwslimaidd ond hefyd Bwdhaidd, Hindŵaidd a Sîc.

Gan eu bod wedi'u sefydlu a'u bod mewn cysylltiad dyddiol â chymunedau ffydd, mae ysgolion â chymeriad crefyddol fel arfer yn ymwybodol iawn o ymagwedd y ffydd tuag at addysg a bywyd, hyd yn oed yn fwy, er enghraifft, pan fo'r corff o ddisgyblion mewn ysgol yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd teuluol ethnig a diwylliannol. Er bod eu cwricwlwm Addysg Grefyddol yn wahanol i ysgolion cymunedol lleol, mae mis Dathlu Addysg Grefyddol yn gyfle iddynt ddathlu eu haddysg grefyddol eu hunain ac ymgysylltu ag ysgolion eraill er mwyn archwilio'r pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol rhyngddynt.

Mae'r syniadau a'r awgrymiadau canlynol yn seiliedig ar ddau brif egwyddor:

- Gyda'u cymunedau a'u cyfatebwyr annibynnol, gall ysgolion â chymeriad crefyddol elwa llawer o gyfrannu at Ddathliad Cenedlaethol o Addysg Grefyddol;
- Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyrraedd y tu hwnt i'w terfynau eu hunain, mae gan ysgolion tebyg lawer i'w gyfrannu at ysgolion eraill a'r gymdeithas ehangach..

Syniadau ac awgrymiadau

Ymchwilio i'ch pwrpas craidd fel ysgol â chymeriad crefyddol

Gallai hyn olygu cynnal cystadleuaeth i ddylunio symbol/ logo neu arwyddair newydd sy'n cynrychioli orau'r hyn y mae'r ysgol yn sefyll drosto/ei geisio, neu archwilio'r credoau a'r gwerthoedd crefyddol sy'n gyrru'r ysgol ymlaen (e.e. os yw'n briodol, gyda help gwefan Christian Values for Schools y Gymdeithas Genedlaethol).

Creu cyswllt ag ysgol debyg / annhebyg arall

Gellir gwneud hyn yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, trwy sefydliad sydd wedi'i sefydlu'n benodol 'Face to Faith neu brosiectau cysylltu ysgolion cenedlaethol) neu'n annibynnol. Ar ôl trefnu i efeillio, trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth (e.e. e-bost, Skype, fideo gynhadledd), gellir holi ac ateb cwestiynau e.e. am y rhan y mae crefydd a chredoau yn ei chwarae ym mhob ysgol (mewn bywyd ac arferion bob dydd, mewn pensaernïaeth a dylunio, yn y cwricwlwm a gweithgareddau allgwricwlaidd, ym mhatrwm y flwyddyn ac ati) neu ar rolau a chyfrifoldebau'r bobl ifanc yn y traddodiadau dan sylw neu sut mae credoau a gwerthoedd yn cael eu rhoi ar waith yn y gymuned. (Gweler yr erthygl ar weithgareddau rhwng ysgolion).

Darparu cyfleoedd mewn addysg grefyddol i ddod i gysylltiad ag aelodau o'ch cymuned ffydd gyda thema megis 'Beth sy'n golygu fwyaf i mi…' neu 'Gwrandewch ar fy stori'

Gallai hyn gynnwys gwahodd aelod allweddol o gymuned grefyddol neu gredoau lleol a'u cyfweld (mewn arddull sioe sgwrsio) o flaen y disgyblion a'r staff. Gellid gofyn i'r 'gwestai' ddod â gwrthrych arbennig i'r sioe, stori arbennig i'w dweud neu ddarn o gerddoriaeth i'w chwarae fel rhan o'r cyfweliad.

Dylunio 'llwybr Addysg Grefyddol' o amgylch adeiladau a safle'r ysgol

Gallai hyn nodi ystod o nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu grefyddol e.e.: placiau, byrddau ac arddangosfeydd coffa a dathliadol,; arwyddion, symbolau a delweddau crefyddol eraill; pensaernïaeth, dyluniad a defnydd o ofod; defnydd o enwau ar gyfer ystafelloedd ac ati; newidiadau yn y defnydd o adeiladau neu feysydd.

Creu cyfres o 'bennau siarad'

Gallai hwn fod yn amrywiaeth o bobl – hen ac ifanc – yn siarad am y credoau a'r argyhoeddiadau sy'n bwysig iddyn nhw. Gellid gosod y deunydd ar wefan yr ysgol neu ei ddefnyddio i greu arddangosfa o ffotograffau/ swigod siarad o amgylch yr ysgol.

Dylunio gofod myfyrio yn yr ysgol neu ar dir yr ysgol

Gallai hwn fod yn lle sy'n adlewyrchu gwerthoedd tanategol yr ysgol neu elfennau o'r traddodiad ffydd perthnasol.

Gweithio gydag artist, dylunydd neu gerflunydd

Gallai hyn olygu creu darn o waith celf sy'n symboleiddio cred/syniad crefyddol allweddol neu pa nodweddion y mae'r ysgol am geisio eu datblygu yn ei disgyblion.

Llunio cyflwyniad i fan addoli sy'n gysylltiedig â'r ysgol

Gellid anelu hwn at ymwelwyr nad ydynt o'r traddodiad hwn, neu i ddisgyblion o wahanol oedran. Gellid ei wneud yn gyhoeddus, trwy wefan yr ysgol efallai (gyda chaniatâd y man addoli).

Coladu 'ein cwestiynau'

Gellid gofyn i ddisgyblion o bob grŵp blwyddyn roi cwestiynau am gredoau a materion crefyddol mewn blwch postio. Gellid argraffu'r rhain a'u harddangos. Gallai hon fod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i athrawon ac arweinwyr ffydd sydd am ganfod pa faterion sy'n pryderu plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau, yn arbennig os ceir cyfleoedd i ymateb a thrafod e.e. mewn gwasanaeth/addoli ar y cyd, yn ystod dyddiau di-amserlen, mewn gwersi Addysg Grefyddol, yng nghylchgrawn Addysg Grefyddol yr ysgol neu ar wefan yr ysgol..

Edrych i mewn, edrych allan

Gallai staff roi cyfle iddyn nhw eu hunain adlewyrchu sut mae natur unigryw Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn paratoi disgyblion i gymryd rhan mewn cymuned o sawl ffydd a chredoau ehangach. A fyddai hyn hefyd yn gyfle i ymgysylltu â disgyblion a lleisiau'r gymuned i ddatblygu trafodaeth yn yr ysgol ar y thema hon?